SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Adroddiad Arolwg Ymgynghori'r Cynllun Heddlu a Throsedd 2019/2020

Cynhaliwyd yr Arolwg rhwng 3 Rhagfyr 2018 a 14 Ionawr 2019 gan dderbyn cyfanswm o 1877 o ymatebion. Cafwyd 70 ymateb yn Gymraeg a 1807 yn Saesneg. O gymharu ag arolwg llynedd, mae yna gynnydd o 44% (573) wedi bod mewn ymatebion. Fodd bynnag mae yna ostyngiad sylweddol o 64% wedi bod yn y nifer sy'n ymateb i'r arolwg yn Gymraeg.

Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i ymgynghori ag aelodau'r cyhoedd am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Heddlu a Throsedd ac am unrhyw gynyddiadau yn y praesept. Roedd y pum cwestiwn cyntaf yn yr arolwg yn gofyn am farn y cyhoedd ar flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd a'r newid awgrymedig mewn blaenoriaeth gyffredin o fygythiad, risg a niwed i Gamfanteisio Troseddol.

1. A ddylai Camfanteisio Troseddol fod yn flaenoriaeth gyffredin?

Cytunodd ychydig dros ddwy ran o dair o ymatebwyr i'r arolwg ar-lein y dylai Camfanteisio Troseddol ddod yn flaenoriaeth gyffredin yn y Cynllun Heddlu a Throsedd. Roedd dros 300 o ymatebion i'r cwestiwn testun agored a ganiataodd ymatebwyr i egluro pam nad oeddent yn cytuno neu ddim yn deall. Dywedodd dros 60% o ymatebwyr eu bod yn meddwl fod camfanteisio troseddol yn bwysig ond nid yn broblem yng Ngogledd Cymru. Teimlent y dylid ystyried mathau eraill o droseddau fel blaenoriaeth uwch ac y dylai plismona lleol fod yn flaenoriaeth gyffredin i'r cynllun. Gwnaeth sawl ymatebydd fynegi'r angen am fwy o wybodaeth ar Gamfanteisio Troseddol gan eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt ddealltwriaeth lawn ar y broblem i roi barn. Bydd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn ysgogi mwy o godi ymwybyddiaeth ynghylch Camfanteisio Troseddol ledled Gogledd Cymru.

	Cyfanswm	%
Cytuno	1424	68
Anghytuno	384	18
Ddim yn gwybod	294	14

A ydych yn cytuno mai Camfanteisio Troseddol ddylai fod y flaenoriaeth gyffredin?



2. A ddylai Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol gyfuno fel blaenoriaethau?

Cytunodd cyfran fawr (81%) o'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein y dylai Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol gael eu cyfuno fel blaenoriaethau. Er bod canran uchel yn cefnogi'r cyfuno mae pryderon amlwg y byddai cyfuno'r ddwy flaenoriaeth yn cael effaith niweidiol ar eu pwysigrwydd. Ceir hyn yn dilyn ymgynghoriad gyda'r trydydd sector a'r sylwadau a dderbyniwyd o fewn yr opsiwn testun agored yn yr arolwg ar-lein. Ystyrir y troseddau'n rhy wahanol i gael eu cyfuno i'r un flaenoriaeth. Mynegodd gwasanaethau eu pryderon hefyd y byddai cyfuno'r blaenoriaethau yn cymylu'r ffiniau ac yn lleihau'r nifer o wasanaethau cymorth. Penderfynwyd felly i'r blaenoriaethau barhau'n endidau ar wahân o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd. Gwnaeth ymatebwyr hefyd rannu eu pryderon bod y blaenoriaethau hyn ond yn ystyried troseddwyr benywaidd yn unol â'r agenda Trais yn Erbyn Merched, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol. Nid fel yna y mae hi. Mae dioddefwyr gwrywaidd a benywaidd yn cael eu cynnwys yn y flaenoriaeth Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol.

	Cyfanswm	%
Cytuno	1630	81
Anghytuno	265	13
Ddim yn gwybod	125	6



3. A ddylai Caethwasiaeth Fodern barhau'n flaenoriaeth?

Dengys y tabl isod y cytunodd 67% o ymatebwyr i'r arolwg y dylai Caethwasiaeth Fodern barhau'n flaenoriaeth. Dangosodd y sylwadau a dderbyniwyd o fewn maes testun agored y cwestiwn fod 22% o ymatebwyr wedi teimlo eu bod angen mwy o wybodaeth am Gaethwasiaeth Fodern. Mae hyn yn debyg i'r ymateb i Gamfanteisio Troseddol. Yn ychwanegol at hyn meddyliodd 28% o ymatebwyr y dylai troseddau eraill gael blaenoriaeth dros Gaethwasiaeth Fodern. Mae angen clir am rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth ymhellach ynghylch effaith Caethwasiaeth Fodern o fewn ein cymunedau.

	Cyfanswm	%
Cytuno	1325	67
Anghytuno	406	20
Ddim yn gwybod	252	13



4. A ddylai Troseddau Trefnedig barhau'n flaenoriaeth?

Cytunodd yr holl ymatebwyr bron i gyd (92%) y dylai Troseddau Trefnedig barhau'n flaenoriaeth o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd. Teimlai'r mwyafrif o'r 8% o sylwadau a dderbyniwyd a oedd yn dweud eu bod yn anghytuno neu'n dewis dweud nad oeddent yn gwybod y dylai troseddau eraill gael blaenoriaeth dros Droseddau Trefnedig. Mae'n amlwg fod y cyhoedd yng Ngogledd Cymru yn deall yr effaith mae Troseddau Trefnedig yn eu cael ar ein cymunedau lleol a'u bod yn sylweddoli y dylid blaenoriaethu'r maes hwn.

	Cyfanswm	%
Cytuno	1809	92
Anghytuno	95	5
Ddim yn gwybod	69	3



5. A ddylai Cymdogaethau Diogelach barhau'n flaenoriaeth?

Ar y cyfan, cytunodd y cyhoedd y dylai Cymdogaethau Diogelach barhau fel blaenoriaeth i'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Cytunodd 91% gyda'r cwestiwn hwn. Dywedodd y sylwadau a dderbyniwyd y dylid ymdrin â dargyfeirio yn annibynnol i'r system cyfiawnder troseddol ac yn hytrach drwy asiantaethau eraill. Fodd bynnag, mae rhaglenni dargyfeiriol ond yn llwyddiannus os ydynt yn darparu agwedd amlasiantaeth. Yn y mwyafrif o achosion, mae unigolion sy'n troseddu yn dioddef nifer o broblemau sylfaenol a ellir ond eu datrys gydag ymyriadau amlasiantaeth. Mae'r rhain yn cynnwys tai, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a chymorth ariannol. Bydd sicrhau bod y mwyaf problematig o fewn ein cymunedau yn derbyn y cymorth iawn yn arwain at ostyngiad mewn troseddau a gwneud ein cymdogaethau'n ddiogelach.

	Cyfanswm	%
Cytuno	1782	91
Anghytuno	96	5
Ddim yn gwybod	80	4



6. A ydych yn meddwl fod yr heddlu yn gwneud gwaith da yn eich ardal leol?

Mae'r siart gylch isod yn dangos fod 40% o ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo fod yr heddlu yn gwneud gwaith gwych neu dda yn eu hardal leol. Dywedodd un rhan o dair o ymatebwyr mai "Gweddol" yw'r gwasanaeth a dderbynnir gan yr heddlu oherwydd y diffyg presenoldeb heddlu o fewn eu hardal. Roedd 1017 o sylwadau testun agored gyda 55% o ymatebwyr yn dweud fod angen mwy o swyddogion a mwy o batrolau er mwyn cael cyfradd uwch. Gwnaeth ychydig dros un rhan o bump (21%) ganmol yr heddlu am eu campau a'u gwaith caled yn wyneb y cyfyngiadau ariannol maent yn eu dioddef. Mae'n amlwg fod y cyhoedd yn sylweddoli fod y toriadau a dderbyniodd yr heddlu wedi effeithio ar blismona dyddiol ac wedi peri i blismona blaenoriaethol gael ei gyflwyno. Fodd bynnag, maent yn teimlo y byddai cymunedau'n elwa o fwy o bresenoldeb gan yr heddlu.

A ydych yn meddwl fod yr heddlu'n gwneud gwaith da yn eich ardal?



7. Faint ydych yn ei feddwl y dylai'r praesept godi?

Gwnaeth yr ymatebion i'r cwestiwn praesept ddangos barn gymysg ledled Gogledd Cymru. Yr ymatebion mwyaf poblogaidd oedd codi'r praesept 55c yr wythnos (21%), codi'r praesept 21c yr wythnos (18%) a Ddim yn gwybod (19%). Roedd y cwestiwn testun agored ar gael i'r rhai hynny a oedd yn dewis yr opsiwn Ddim yn gwybod. Dywedodd 79% na ddylid bod cynnydd yn y praesept. Dywedodd nifer o ymatebwyr na ddylid cymryd y cronfeydd oddi wrth y talwyr trethi ac y dylai Llywodraeth y DU roi mwy o nawdd. Yn ychwanegol, byddai ymatebwyr yn fodlon talu mwy pe bai'n arwain at fwy o swyddogion ar y strydoedd.

Gwerth	Cyfanswm	%
21c yr wythnos	311	18
35c yr wythnos	201	12
37c yr wythnos	155	9
45c yr wythnos	132	8
50c yr wythnos	224	13
55c yr wythnos	366	21
Ddim yn gwybod	327	19
Cyfanswm	1716	

Ymateb i'r praesept



Mae'r siart gylch isod yn dangos cyfuniad o'r ymatebion a dderbyniwyd gan yr arolwg. Mae'n dangos fod 51% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r praesept godi 37c yr wythnos neu fwy.

Faint ddylai'r praesept heddlu godi?



8. A ydych yn fodlon gyda'r ffordd rwyf yn ymgynghori â chi?

Byddai fforymau cyhoeddus yn well ffordd o gyfathrebu gyda'r cyhoedd yn ôl y mwyafrif o'r sylwadau a anghytunodd mai arolwg ar-lein yw'r ffordd orau ymlaen. Cynhaliodd y Comisiynydd nifer o fforymau cyhoeddus i ymgynghori gydag aelodau o'r cyhoedd ledled Gogledd Cymru yn 2016/17. Roedd y nifer a fynychodd bob un o'r cyfarfodydd hyn yn eithriadol o isel er bod ymgyrch ledled yr heddlu wedi bod i annog presenoldeb. Oherwydd y lefel presenoldeb isel yn y rhain, penderfynwyd nad oedd yn gost effeithiol i gynnal digwyddiadau o'r fath.

	Cyfanswm
Ydw	1509
Nac ydw	323

9. Ym mha sir ydych yn byw?

Mae'r siart gylch isod yn dangos fod 62% o ymatebwyr i'r arolwg yn byw yn siroedd Y Fflint a Wrecsam. Pan ofynnwyd ymhle oedd ymatebwyr wedi clywed am yr arolwg, roedd OWL, sydd wedi'i leoli yn ardal ddwyreiniol yr heddlu, yn un o'r atebion mwyaf poblogaidd. Roedd Wrexham.com a Deeside.com hefyd yn atebion poblogaidd. Mae'r gefnogaeth gan OWL a chyfryngau lleol ledled ardal yr heddlu wedi bod yn amhrisiadwy wrth gynyddu'r nifer o ymatebwyr i'r arolwg.



10. Sut glywsoch chi am yr arolwg?